# Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol (SSAA)

# Y Diwydiant Lled-ddargludyddion

## PROFFIL Y RÔL

**Pwrpas:**

Rydym yn derbyn ceisiadau am Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol ar gyfer y cymwysterau canlynol:

- CBAC Lefel 2 Dyfarniad mewn Cyflwyniad i Dechnolegau Gweithgynhyrchu Uwch (Lled-ddargludyddion)
- CBAC Lefel 2 Tystysgrif mewn Cyflwyniad i Dechnolegau Gweithgynhyrchu Uwch (Lled-ddargludyddion)
- CBAC Lefel 2 Tystysgrif Estynedig mewn Cyflwyniad i Dechnolegau Gweithgynhyrchu Uwch (Lled-ddargludyddion)
- CBAC Lefel 2 Diploma mewn Cyflwyniad i Dechnolegau Gweithgynhyrchu Uwch (Lled-ddargludyddion)
- CBAC Lefel 4 Cymhwyster Technegol Uwch ar gyfer Technegwyr Lled-ddargludyddion (Lled-ddargludyddion)

Mae'r Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol yn gyfrifol am weithgareddau sicrhau ansawdd allanol sy'n gysylltiedig â'r cymwysterau hyn.

**Cyfrifoldebau:**

Fel Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol CBAC bydd angen i chi gynnal perthnasoedd gwaith effeithiol rhwng ein canolfannau a swyddfa CBAC, gan gynllunio a monitro gweithgareddau sicrhau ansawdd allanol yn unol â'n gofynion o ran cymwysterau. Mae'r rôl yn cynnig profiad heriol a gwerthfawr ac mae'n gyfle gwych i chi ddefnyddio eich arbenigedd asesu, sicrhau ansawdd a diwydiant.

Byddwch yn:

- cynnal a dogfennu cymeradwyaeth canolfan, sicrhau ansawdd allanol, gweithgareddau ymgynghori a systemau gyda chanolfannau, yn unol â threfniadau CBAC a threfniadau rheoleiddiol.

- rhoi cyngor a chefnogaeth i ganolfannau drwy gefnogi/ymgysylltu o bell ac wyneb yn wyneb.

- cymryd rhan mewn gweithgareddau safoni blynyddol i gynnal y gwaith o safoni ymarfer ar draws tîm y Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol. Mae presenoldeb yn orfodol ac yn amod o'r penodiad; fel arall, ni fydd yn bosibl i fynd ymlaen i weithgareddau sicrhau ansawdd allanol.

- sicrhau ansawdd canolfannau a dderbynnir yn allanol drwy gydol y flwyddyn academaidd drwy drefnu ymrwymiadau monitro a chefnogi gan Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol. Llunio adroddiadau ysgrifenedig ar ganlyniad ymweliadau gan

ddefnyddio pwyntiau gweithredu CAMPUS i'r ganolfan weithio tuag atynt. Yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r dyddiadau a roddwyd gan CBAC yn y *Llawlyfr i Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol* gan ystyried unrhyw gyfarwyddiadau pellach a gyhoeddir gan CBAC

- cadw cofnodion manwl gywir o'r holl ganlyniadau a sylwadau sicrhau ansawdd allanol yn unol â chyfarwyddiadau CBAC

- darparu samplau o waith canolfannau yn ôl gofynion yr Uwch Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol/CBAC

- darparu gwybodaeth am unrhyw agwedd ar broses Sicrhau Ansawdd Mewnol ac arferion asesu canolfannau yn ôl cais yr Uwch Swyddog Sicrhau Ansawdd a/neu CBAC

**Profiad/cymwysterau angenrheidiol**

- meddu ar gymhwyster Sicrhau Ansawdd Allanol, gweithio tuag at y cymhwyster, neu'n barod i gael y cymhwyster
- profiad addysgu, asesu a sicrhau ansawdd mewnol perthnasol
- profiad perthnasol yn y diwydiant electronig a lled-ddargludyddion
- profiad o hyfforddi a chefnogi pobl yn eu hymarfer
- y gallu i weithio'n dda o dan bwysau
- sgiliau cyfathrebu ardderchog
- gallu gosod targedau clir a CAMPUS

I gael gwybod mwy am y rôl, cysylltwch â peirianneg@cbac.co.uk

**Sut i wneud cais**:

Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd, ac nad ydych yn gweithio i CBAC ar hyn o bryd, ewch i https://appointees.wjec.co.uk/ a chlicio ar 'Gwneud Cais i fod yn Arholwr' i lenwi'r ffurflen gais.

**Os ydych chi'n gweithio i CBAC ar hyn o bryd**, mewngofnodwch i'ch cyfrif Porth Rheoli Penodedigion a chliciwch ar yr eicon 'Fy Nghais' ar y dudalen gartref. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu rôl **Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol – Lefel 2 neu Lefel 4 Lled-ddargludyddion** ar y tab 'maes pwnc', a llenwch feysydd eraill y cais.

Os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch wrth lenwi'r ffurflen gais, cysylltwch â:-

| | | |
|---|---|---|
| Rob Reynolds | neu | Emily Safadi |
| rob.reynolds@cbac.co.uk | | emily.safadi@cbac.co.uk |
| 02920 265 050 | | 02920 265 305 |